

## Nodiadau Canllaw

### Ceisiadau am Arian Trefi Taclus a Arweinir gan y Gymuned 2014-15

Mae sefydliadau cymunedol a grwpiau gwirfoddol yn cael eu gwahodd i wneud cais am Arian o dan Arweiniad y Gymuned, ar gyfer **prosiectau sydd dros £1,000 ond yn llai na £30,000**. Mae'n rhaid i brosiectau gael eu cwblhau erbyn **31 Mawrth 2015**.

**O ran ceisiadau sy'n llai na £1000**, dylid eu cyfeirio at 'Cadwch Gymru'n Daclus' sy'n cynnal cynllun grant cymunedol bychan o'r enw Trefi Taclus. Mae'r manylion cyswllt isod.

### Meini Prawf Allweddol

Mae'n rhaid i bob gweithgaredd Trefi Taclus ganolbwyntio ar wella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys: glanhau, datblygu gerddi cymunedol a rhandiroedd, sefydlu mesurau i rwystro tipio anghyfreithiol, gwella mynediad, rheoli planhigion ymledol, bioamrywiaeth a phrosiectau gwella cynefinoedd ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a'r blaenoriaethau allweddol canlynol. Nid oes rhaid i'ch prosiect fodloni pob maen prawf, ond po fwyaf y byddwch yn bodloni, y cryfaf fydd y cais:

- Tystiolaeth o'r materion ansawdd amgylcheddau lleol y mae'r prosiect yn mynd i'r afael â nhw a'r manteision i'r ardaloedd.
  - Mae croeso arbennig i brosiectau mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd ar yr arfordir.
  - Cynnwys partneriaid eraill a thystiolaeth o gydweithio'n agos ar lefel gymunedol, er enghraifft gyda grwpiau preswylwyr, ysgolion, grwpiau gwirfoddol a busnesau.
  - Gweithio trawsffiniol.
  - Prosiectau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion Ansawdd yr Amgylchedd Lleol ac agwedd/ymddygiad y bobl leol (e.e. trwy addysg, dysgu sgiliau, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu).
  - Gwerth am arian ac unrhyw werth ychwanegol, er enghraifft arian cyfatebol;
  - Gwybodaeth am gynladwyedd y prosiect a sut y bydd ei fanteision yn parhau pan ddaw'r cyllid hwn i ben.
  - Bydd ceisiadau i gynnwys swm sylweddol o gostau staff yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth is.

### Bod yn Gymwys

Bydd prosiectau o amrywiaeth eang o sectorau a grwpiau yn cael eu hystyried, megis:

- Grwpiau o dan arweiniad y gymuned
- Sefydliadau'r Trydydd Sector

- Sefydliadau amgylcheddol
- Sefydliadau eraill gan gynnwys Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân, Gwarchod y Gymdogaeth ac ati.

Ni ddylai ymgeiswyr wneud cais am arian o dan arweiniad y gymuned ar gyfer prosiect os oes unrhyw arian Trefi Taclus arall wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect.

#### Materion yn gysylltiedig â thir

- Os fydd angen cael mynediad i dir er mwyn cynnal prosiect, bydd yn rhaid cael yr hawl i gael mynediad i'r tir a rhoi tystiolaeth.
- Os oes prosiect i'w gynnal ar dir nad yw'n berchen i grŵp y prosiect, mae'n rhaid cael llythyr o gefnogaeth gan y tiffeddiannwr yn cadarnhau ei fod yn cytuno â gweithgareddau'r prosiect.
- Os bydd yn rhaid newid y tir oherwydd y prosiect bydd yn rhaid i'r grŵp gael naill ai les ar y tir neu gytundeb trwydded gyda'r tiffeddiannwr. Rydym yn cynghori grwpiau i gael les neu gytundeb trwydded am leiafswm o 10 mlynedd, ac o ddewis am gyhyd â phosib.

#### Prosiectau nad oes yn bosib eu cefnogi

- Prosiectau sy'n denu ymwelwyr neu dwristiaid fel eu prif reswm.
- Prosiectau sydd heb gysylltiad clir â delio â materion Ansawdd yr Amgylchedd Lleol.
- Prosiectau mawr sy'n gysylltiedig â cherfluniau nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig ag Ansawdd yr Amgylchedd Lleol.
- Prosiectau sy'n chwilio am gyllid i brynu a gosod eitemau ar gyfer mannau chwarae, parciau sgrialu neu leoliadau ar gyfer chwaraeon amrywiol.
- Ni fydd prosiectau sy'n ceisio ariannu swyddi staff yn gyfan gwbl yn gymwys.

#### **Y Broses o Wneud Cais**

**Bydd yn rhaid llenwi pob rhan o'r ffurflen gais.** Ni fydd ffurflenni sydd heb eu llenwi'n iawn yn cael eu hystyried.

Dylid anfon copi caled o'r ffurflenni a'u cyflwyno **erbyn 1 Mai 2014** i'r cyferiad RHADPOST (dim angen stamp):

Cangen Ansawdd yr Amgylchedd Lleol  
Llywodraeth Cymru  
RHADBOST NAT 8910  
Caerdydd  
CF10 3BR

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag **Alison Tranter drwy ffonio 02920 826230**

Byddwch yn derbyn e-bost o gydnabyddiaeth pan ddaw eich cais i mewn felly gwnewch yn siŵr bod manylion eich e-bost yn y dogfennau sy'n cael eu cyflwyno yn gywir.

Bydd y prosiectau hynny sy'n mynd drwy'r broses hidlo gychwynnol yn cael eu gwerthuso wedi hynny gan Banel Asesu Annibynnol.

Bydd y penderfyniadau ar ddyrannu'r cyllid i brosiectau yn cael ei wneud cyn diwedd Mehefin 2014 ac yn cael eu trosglwyddo'n electronig ichi. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn y dyddiad hwn cymerwch fod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus, er y byddwn yn ceisio gadael i ymgeiswyr aflwyddiannus wybod o fewn yr un cyfnod amser.

Os ydych am gael adborth ar eich cais aflwyddiannus, cysylltwch â ni:

[LEQ@wales.gsi.gov.uk](mailto:LEQ@wales.gsi.gov.uk)

Rhowch 'Cais am Brosiect Cymunedol Trefi Taclus' yn y pennod pwnc.

---

#### **Cadw Cymru'n Daclus:**

Ebost: [trefi.taclus@cadwchgymrundaclus.org](mailto:trefi.taclus@cadwchgymrundaclus.org)

Ffôn: 029 2072 6994

## Guidance Notes

### Tidy Towns Community Led Funding Applications 2014-15

Community organisations and voluntary groups are invited to bid for Tidy Towns Community-led Funding, for **projects greater than £1,000 but less than £30,000**. All projects must be completed by **31 March 2015**.

**Applications under £1000** should be directed to Keep Wales Tidy who operate a *Tidy Towns* small community grant scheme. Their contact details are provided below.

#### Key Criteria

All Tidy Towns supported activities must be focussed upon improving Local Environment Quality (LEQ). These include: clean-ups, developing community gardens and allotments, installation of fly-tipping prevention measures, access improvements, control of invasive species, biodiversity and habitat improvement projects and awareness raising campaigns.

Applications will be assessed against the following key criteria and priorities. Your project does not have to meet all of the criteria, but those projects that can address as many as possible will be considered stronger:

- Evidence of the LEQ issues that are being tackled and the multiple benefits to an area.
- Projects in deprived areas and coastal environments are particularly welcome.
- The involvement of other partners and evidence of close joint working at a community level, for example with residents' groups, schools, voluntary groups and businesses.
- Cross boundary working.
- Projects that are designed to tackle LEQ issues *and* the attitude/behaviour of local people (e.g. through education, gaining skills, awareness raising and engagement).
- Value for money and any added value, for example match-funding.
- The sustainability of the project and how the project's benefits will continue when this funding has come to an end.
- Bids including a significant amount of staff costs will be considered lower priority.

### **Eligibility**

Projects will be considered from a wide variety of sectors and groups, such as:

- Community led groups
- Third Sector organisations
- Environmental organisations
- Other organisations including Tenants and Residents Associations, Police and Fire Services, Neighbourhood Watch etc.

Applicants should not apply for community led funding for a project if any other Tidy Towns funding has been secured for that project.

### **Land issues**

- If land must be accessed in order to undertake the project, permission to access the land must be sought and evidence provided.
- If a project is going to take place on land that is not owned by the project group, there must be a letter of support from the landowner confirming agreement to the project activities.
- If the project will involve alterations to the land we require the group to obtain either a lease on the land or a licence agreement with the landowner. We advise groups to obtain a lease or licence agreement for a minimum of 10 years and preferably as long a duration as possible.

### **Projects which can not be supported**

- Projects with no clear link to tackling specific LEQ issues.
- Projects which seek to fully fund staff posts will not be eligible.
- Projects whose prime reason is to attract visitors or tourists.
- Large sculpture related projects that do not link in any way to LEQ.
- Projects which seek funding to purchase and install playground items, skate boarding parks or multi use game areas.

### **Application Process**

**All sections of the application form must be completed.** Incomplete forms will not be considered.

The forms should be sent in by hard copy and **must be submitted by 1 Mai 2014 to the following FREEPOST address (no stamp required):**

Local Environment Quality Branch  
Welsh Government  
FREEPOST NAT 8910  
CF10 3BR

If you have any queries please contact **Alison Tranter Tel: 02920 826230**

You will receive an acknowledgement e-mail on receipt of your application so please ensure that the e-mail contact details provided in the documents submitted are accurate.

Those projects that progress through the initial sifting process will subsequently be appraised by an Independent Assessment Panel.

Decisions on the allocation of funding to projects will be made by the end of June and will be conveyed to you electronically. If you have not heard from us by this date please assume that your application has been unsuccessful, although we will endeavour to let unsuccessful applicants know within the same timeframe.

If you require feedback on your unsuccessful application, please contact us on the LEQ e-mail address:

[LEQ@wales.gsi.gov.uk](mailto:LEQ@wales.gsi.gov.uk)

Please include 'Tidy Towns Community-led Project Application' in the subject heading.

---

**Keep Wales Tidy:**

Email: [tidy.towns@keepwalestidy.org](mailto:tidy.towns@keepwalestidy.org)

Telephone: 029 2072 6994

Website: <http://www.keepwalestidy.org/our-projects/tidy-towns/contact-us>